

## Eisteddfod Penrhyn-coch 2018

### Cystadleuaeth y Gadair: Tlws yr Ifanc. Portread o unrhyw ardal yng Nghymru

Er bod y testun yn weddol agored o ran ffurf y portread, pum darn o ryddiaith a ddaeth i law yng nghystadleuaeth Tlws yr Ifanc eleni. Mae'r llenorion yn mynd â ni o Lanbadarn Fawr i Borth Neigwl, Penygroes, Porthdinllaen a Phorthmadog ac mae safon y portreadau yn uchel iawn. Buaswn yn annog y llenorion i gyd i ddal ati, dim bod angen yr anogaeth hwnnw dwi'n siŵr, ac i geisio cyhoeddi'r darnau yma. Llanbadarn Fawr yw cynefin Y CANWR ac mae eglwys Llanbadarn a'i chlychau, y tafarndai ac Afon Rheidol i gyd yn cael sylw, ac mae brogarwch Y CANWR yn cael ei gyfathrebu yn glir a chroyw. Mae ambell lithriad gramadegol yma a thraw, ond materion bach i'w cywiro yw'r rhain. Mae gan Y CANWR ddawn i ddal diddordeb darllenydd - dalier ati!

Mae dawn gan WIL i gyfleu ymdeimlad o le hefyd. Porth Neigwl yw'r lle, ac mae brogarwch WIL yn amlwg yn y llinell 'Er i'r Saeson ei alw'n 'Hell's Mouth' caf gryn drafferth weld dim dieflig rhwng Mynydd Cilan a'r Rhiw.' Mae WIL yn gwybod sut i amrywio brawddegau er mwyn cynnal diddordeb. Dechreu a un paragraff fel hyn 'Sylwn fod y cewri o dwyni wedi crebachu bellach' ac mae Saeson Abersock fel 'morloi yn brefu'n swnllyd.' Mae dawn amlwg gan WIL.

Felly hefyd gan JOS, sydd yn aros ym Mhen Llŷn ac yn symud i Borthdinllaen. Ar ei orau, mae nodweddiad potread JOS yn debyg iawn i rai WIL, - y gallu i ddwyn darluniau i gof i greu ymdeimlad o le a pherthyn gyda'r tirlun - 'Lle bo rhai yn cael teimlad arswydus drwyddynt wrth weld fod y môr cyn ddyled â'r cymylau llwydion gwarchodol uwch ei ben, dwi'n cael rhyw gysur od ohono. Nid yw cweit mor llwyddiannus â darn WIL, oherwydd mae mwy o esbonio a llai o ddangos. Darn da, agos-atoch, naturiol fodd bynnag.

Trwch blewyn sydd rhwng y ddau lenor sy'n aros sef SAN FRANCISCO ac ALIS. Portread o ardal Penygroes sydd gan SAN FRANCISCO, ac mae'n ddarn arbennig o dda. Mae'n gwybod yn iawn sut mae dechrau yn effeithiol 'Ar fore fel yma dydi o'n ddim...Y diferion mân yn golchi'r rhyfeddod i gyd ymaith.' Rhestrir golygfeydd mewn brawddegau byrion mewn ffordd effeithiol iawn gan gyfleu prysurdeb y pentref yn y tywydd braf. Mae'r darn clo yn taro deuddeg - 'Weithiau dwi'n sefyll ar ben Clogwyn Melyn, ar ben y byd, ac yn edrych i lawr ar y strydoedd yn clymu gyda'i gilydd. Mae ychydig yn ormod o ail-adrodd fan hyn a fan draw, ac nid yw'r darn am yr haul yn talu am ei le, ond ar y cyfan, mwynheuais y darn yma yn fawr iawn.

Mae ALYS, wedyn, yn portreadu Porthmadog. Mae ALIS yn rhoi'r argraff ei bod mewn rheolaeth lwyr o'r hyn y mae am ei ddweud, ac mae'r darn yn gymysgedd o ddisgrifiadau ffeithiol a dweud delwedol hyfryd fel 'Y palmentydd sydd wedi eu marcio ynof, a'r mynyddoedd yn greithiau anweledig o hapusrwydd yn fy ngwaed.' Personolir y tirwedd yn gelfydd: 'Wrth ddychwelyd adref o'r coleg, mae Moel y Gest yn fy nghroesawu â'i freichiau'n llydan agored a'r môr yn gwlychu ei draed.' Mae hi'n gorffen fel hyn - 'Clywed sŵn y trê'n bach a Chreigiau'r Dre'n gawr clên yn falch o'm gweld eto. Arogl bwyd cartref fy mam yn suo yn y gegin, dyma pryd y clywaf y clychau'n canu "croeso adref". ALYS sydd fwyaf llwyddiannus o ran greu ymdeimlad o le, llwydda i ail-greu nid y tirlun yn unig ond y teimlad

o fod yn y dref, y bobl a'r bywyd gwyllt. Diolch i ALYS am ddarn cyfoethog a llongyfarchiadau mawr iddi am ennill Tlws yr Ifanc eleni.